**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

28 Tachwedd 2022

Annwyl Weinidog,

Bil Amaethyddiaeth (Cymru) – Rhan 3: Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol: Pennod 2: Safonau marchnata: Cynhyrchion Amaethyddol, ac Atodlen 1 (a gyflwynir gan adran 32):

Heddiw cyfarfu'r Aelodau'n breifat i drafod materion allweddol a themâu ar gyfer ei adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) (y "Bil").

Wrth ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law yng Nghyfnod 1, nodwyd i Hybu Cig Cymru dynnu sylw ar 27 Hydref at y ffaith nad yw Atodlen 1 i'r Bil, sy'n rhestru'r cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i ddarpariaethau safonau marchnata, yn cynnwys 'cig dafad'.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn egluro mai diben a bwriad Pennod 2 o'r Bil yw disodli pwerau presennol Gweinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 ("Deddf 2020") i wneud darpariaeth am y safonau y bydd yn rhaid i restr ddynodedig o gynhyrchion amaethyddol gydymffurfio â hi. Mae'r pwerau hyn i fod i ddod i ben ar ddiwedd 2024 o dan gymal "machlud" yn Neddf 2020.

Mae'r tabl tarddiadau ar dudalen 447 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod adran 32 o'r Bil yn tarddu o Baragraff 16, Atodlen 5 i Ddeddf 2020, a bod Atodlen 1 yn tarddu o Baragraff 17, Atodlen 5 i Ddeddf 2020. Deallwn fod y darpariaethau hyn yn eu tro yn

tarddu o’r Rheoliad CMO (fframwaith yr UE ar gyfer Cyd-drefniant y Farchnad o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin).

Dywedodd Gwyn Howells o Hybu Cig Cymru fod geiriad Atodlen 1 wedi ei gopïo’n o’r Rheoliad CMO, ac mai ei obaith oedd bod y newid i gynnwys cig defaid wrthi’n cael ei ddrafftio.

A allech egluro pam na chafodd 'cig dafad' ei gynnwys yn Atodlen 1 i'r Bil? A oes bwriad i’r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys hyn, ac os nad oes, a allwch amlinellu’r rhesymeg dros beidio â gwneud hynny?

Byddai’r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael ymateb ar y pwynt hwn ar fanylion drafftio cyn gynted â phosibl, cyn iddo gwblhau ei adroddiad Cyfnod 1.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.